## Apwyntiadau Awdioleg

Polisi’r adran hon yw gweld cleifion ar yr amser oedd wedi ei drefnu.

Os bydd unrhyw glaf yn cyrraedd 15 munud yn hwyrach na’r amser hwn, mae’n bosibl y bydd yn cael cynnig ap-wyntiad arall.

Bydd cleifion sy’n cyrraedd yn gynt yn cael eu gweld cyn gynted ag y bydd yr amgylchiadau yn caniatáu hynny.

*Taflen Gwybodaeth i Gleifion: 8129*

*Adolygu: 31.01.2026*

I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun, cysylltwch â ni:

**Trwy'r Post:**


Yr Adran Awdioleg
Ysbyty Brenhinol Morgannwg
Ynysmaerdy
Pont-y-clun
CF72 8XR

Yr Adran Awdioleg
Parc Iechyd Keir Hardie
Ffordd Aberdâr
Merthyr Tudful
CF48 1BZ

Yr Adran Awdioleg
Ysbyty Tywysoges Cymru
Heol Coety
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 1RQ

**Dros y ffôn:**

01443 443283 / 01685 728130 / 01656 752195

**Trwy e-bost:**

CTM.ChildHearing@wales.nhs.uk

CTT_Audiology@wales.nhs.uk (nid Pen-y-bont ar Ogwr)


GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf University Health Board



# Adran Awdioleg Plant

***Y gwasanaeth cymorth dros e-bost***



**Beth yw’r gwasanaeth cymorth dros e-bost?**

Mae’r gwasanaeth cymorth dros e-bost yn wasanaeth sy’n helpu rhieni/gwarcheidwaid plant a phobl ifanc byddar i gysylltu â’r adran Awdioleg. Os oes gan eich plentyn apwyntiad gyda ni eisoes, gallwch ddefnyddio’r gwasanaeth cymorth dros e-bost. Yn gyntaf, mae angen i chi lofnodi cytundeb.

**Beth rydyn ni’n ei wneud**

Gallwch ddefnyddio’r llinell gymorth

- I drefnu apwyntiad
- I ganslo apwyntiad
- I aildrefnu apwyntiad

Bydd staff y swyddfa yn yr adran Awdioleg yn rheoli’r gwasanaeth cymorth dros e-bost. O bosib bydd aelodau eraill o staff yn taro golwg dros yr e-byst hefyd.

I ddefnyddio’r gwasanaeth cymorth dros e-bost, rydyn ni angen:

1. ffurflen gydsyniad wedi'i llofnodi
2. eich cyfeiriad e-bost

Pan fyddwch chi’n derbyn e-bost oddi wrthym, fe welwch y cyfeiriad e-bost **CTT_Audiology@wales.nhs.uk.** Byddwn ni’n cadw’r holl wybodaeth sydd ei hangen arnom ar ein cronfa ddata.

**Yr hyn y mae angen ichi ei wneud**

✦pan fyddwch yn anfon e-bost atom, rydym angen enw, cyfeiriad a dyddiad geni eich plentyn bob tro.

✦Os byddwn yn anfon apwyntiad atoch, dim ond ar gyfer **eich** plentyn y gall fod.

✦Peidiwch ag anfon atodiadau gyda’ch neges e-bost.

✦Rhowch wybod i ni os byddwch chi’n newid eich cyfeiriad. O bosib byddwn ni’n gwirio eich cyfeiriad e-bost gyda chi yn ystod yr apwyntiad i wneud yn siŵr bod gyda ni’r wybodaeth ddiweddaraf.

Cymerwch olwg ar eich negeseuon e-bost yn rheolaidd os ydych chi’n disgwyl ateb gan yr adran Awdioleg. Mae’n bosibl bydd angen i ni roi’r gorau i ddefnyddio’r gwasanaeth e-bost os nad ydych chi’n dod i apwyntiadau y gwnaethoch drwy e-bost.

**Beth na allwn ni ei wneud**

Ni allwn roi cyngor meddygol i chi trwy e-bost. Os oes pryderon gyda chi, ewch i weld eich Meddyg Teulu. Mewn argyfwng cysylltwch â’r gwasanaethau brys. Pan fyddwn yn anfon e-byst yn defnyddio'r rhyngrwyd efallai na fydd yn ddiogel bob amser. Gall darparwr eich Gwasanaeth Rhyngrwyd storio eich e-byst. Ni allwn sicrhau na fydd rhywun yn rhyng-gipio eich negeseuon e-bost ac yn eu darllen. Mae’r gwasanaeth e-bost ar gyfer rhieni/gwarcheidwaid yn unig. Dim ond trwy e-bost y gallwn wneud apwyntiadau ar gyfer plant yr ydym eisoes wedi eu gweld.

Mae pob croeso i chi ddefnyddio’r gwasanaeth cymorth dros e-bost o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod oriau swyddfa. Cofiwch na fydd yr Adran Awdioleg ar agor yn ystod y Nadolig, y Pasg na Gwyliau Banc. Byddwn yn ateb eich negeseuon e-bost ar ôl i ni ailagor.